

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 02/12/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Iwan Hughes
D Andrew Parry

Barbara Warren
Rhian Parry
Clerc

John Brinley Jones

William Roger Jones

1. Ymddiheuriadau

Wedi derbyn ymddiheuriadau gan Penri Jones, Victor Jones, Clair Russel Griffiths, Evan Glyn Thomas, Rhodri Elis Owen a Greta Hughes

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim

Nodwyd y Clerc nad oes cworwm i drafod cais cynllunio sydd wedi dod i law ers creu'r agenda gan fydd dau aelod yn datgan buddiant.

3. Cofnodion 28/10/2019

Nodwyd bod cyfenw Clair Russell Griffiths yn anghywir ac mae'r Clerc yn cywiro. Derbyn Cofnodion 28/10/2019 yn gywir ac wedi eu harwyddo.

4. Unrhyw Fater Brys

- **Cerrig Cofebion** – Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) bellach wedi ymateb ac yn nodi bod angen hawl i osod y cerrig cofebion ar fynydd Tir Cwmwd. Drwy sgwrs gyda CNC mae'r Clerc wedi cael e-bost cyswllt i Llanbedrog Headland Company ac wedi ysgrifennu atynt er trafod y mater. Bu'r Clerc yn parhau i drafod y mater ac yn adrodd yn ôl ar ddatblygiadau.
- **Blwch sych** – bu angen pwrcasu blwch sych i ddal plygiau goleuadau'r goeden Nadolig. Mae'r pwyllgor yn cytuno ad-daliad o £17.00 i'r Clerc
- **PREASEPT** – Mae yn amserol i drafod preasept 2020 – 2021. Mae'r Clerc wedi darparu drafft cyllideb. Mae'r aelodau yn teimlo nad yw'n briodol trafod y preasept gyda nifer o aelodau wedi ymddiheuro. Mae ffurflen Cyngor Gwynedd angen eu dychwelyd erbyn dydd Gwener 24/01/2020, cytunwyd i gynnal cyfarfod mis Ionawr ar ddydd Llun 17/01/2020 er cytuno ar y gyllideb a'r preasept. Bydd y Clerc yn gyrru copi o'r gyllideb drafft i aelodau.
- **Gwrych** - Mae Evan Glyn Thomas eisiau nodi yn ei absenoldeb bod gwrych yn tyfu ymhell i'r ffordd ym Morlais (Hen Bost) Lon Pin. Cytunwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Gwynedd er eu torri yn ôl.
- **Cwn ar Lan y Môr** - Mae aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu yn nodi bod yn cael trafferthion gyda cwn yn baeddu ei ddillad pan mae'n nofio ar lan y môr. Mae wedi digwydd droeon. Cytunwyd i gysylltu gyda Chyngor Gwynedd ar ran y sawl sydd yn cwyno gan ofyn am unrhyw reolau cwn sydd ar y traeth.

5. Cae chwarae

Nodwyd Barbara Warren nad oes gyfarfod Pwyllgor Cae Chwarae wedi bod eto ond mae aelodau yn edrych ar grantiau. Bydd cyfarfod yn y flwyddyn newydd.

Mae angen bin ysbwriel newydd i'r cae chwarae, nodwyd bod yn bwysig cael un gyda chae ad arno. Mae'r pwyllgor yn caniatáu i'r Clerc drefnu hyn.

6. Y Fynwent

Mae materion yn ymwneud a'r fynwent yn parhau; trefnu cynllun busnes cynhwysfawr, costau tebygol, cynllunio, grantiau, parcio a materion cyfreithiol. Cytunwyd i gael dyfynbris gan nifer o syrfëwr i gydlynu'r gwaith. Mae'r Clerc yn gwneud ymchwil ac yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor.

Clerc – Rhian Parry • cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com •

07748 906 651 • Craig y Mor Ffordd Dewi Sant, Nefyn LL53 6EA

Cadeirydd – Iwan Hughes • Iwan.hughes2@btinternet.com • 07973 661 943 •

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 02/12/2019 7:00yh Neuadd y Pentref Llanbedrog

Ceisiadau Cynllunio

C19/1037/38/LL

Cais ol-weithredol i ymestyn safle carafanau teithiol a cynyddu nifer o garafanau o 10 i 20 mewn nifer, darparu man storio ar gyfer 20 uned teithiol ar y safle caniaetaedig, cadw bloc toiledau, ac ymgymryd a gwaith tirlunio / sgrinio (yn cynnwys codi bwnd 1.2 metr o uchel yn lle ffens bren bresennol ar ochr Lon Pin.

Bryniau, Llanbedrog.

Sylwadau – Nodwyd bod y cyngor Cymuned eisoes wedi gwrthwynebu'r datblygiad a bod y cais wedi ei wrthod gan yr arolygaeth gyda dim ond un agwedd o'r gwrthodiad yn cael ei ddatrys yn y cais newydd. Mae dal pryderon am ddiogelwch y ffordd.

Ymgynghoriad BT

Ymgynghoriad i waredu blwch ffon BT – Cytunwyd nad oes angen pwrcasu'r blychau ffon i unrhyw ddefnydd.

Gohebiaeth

1. **Llywodraeth Cymru** - Newid a gynigir i Orchymyn Draenio Cynaliadwy (Gorfodi) (Cymru) 2018
2. **Cyfoeth Naturiol Cymru** - Cerrig cofebion
3. **Llywodraeth Cymru** - Sicrhau Bioamrywiaeth Gwell
4. **Un Llais Cymru** - Bwletin Newyddion
5. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** – cylchlythyr
6. **Rali Goffa James Trenholme** - Tachwedd 23/24 November 2019
7. **Cyngor Iechyd Cymuned** - cynrychioli buddiannau pobl yn y gig yng nghymru: ein cynlluniau a'n blaenoriaethau yn 2020-2021
8. **Un Llais Cymru** - Cofnodion Cyngorau Lleol Mwy
9. **Un Llais Cymru** - Adrodd ar Adran 6 - Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystema
10. **Priffyrdd** - Gorchymyn Cyngor Gwynedd
11. **Council & Clerks Direct** – Cylchlythyr

Cais am gyfraniad

1. **O Ddrws i Ddrws** - Cais i ariannu cynllun i ddanfôn pobl i'r feddygfa
2. **BOBATH** – Canolfan Therapi Plant Cymru
3. **Ysgol Llanbedrog** – Rhodd i osod polyn fflag
4. **Elusen Ambiwylans Awyr Cymru** – Cais am rhodd.
5. **Cynorthwyo Nyrsys a gwasanaethau lleol Marie Curie.**
6. **Parêd Dewi Sant Pwllheli** – Cais am gyfraniad
7. **Dawns I Bawb** – Cais am gyfraniad